# Disgrifiad Swydd

| | |
|---|---|
| Teitl y Swydd | Cynorthwyydd Addysgu (Lefel 1) |
| Gwasanaeth | Ysgolion a Diwylliant |
| Graddfa | 2 |
| Pwynt/iau Cyflog | 2 |
| Cyflog | £22,366 pro-rata |
| Pwrpas y Swydd | Gweithio (yn annibynnol ar brydiau) o dan arweiniad uwch aelodau o’r staff/staff addysgu er mwyn ymgymryd â rhaglenni gwaith / gofal / cefnogi / allanol (mewn meysydd arbenigol) i alluogi mynediad at ddysgu i’r disgyblion. |
| Lleoliad | Ysgol Gynradd Gymunedol Llanilar |
| Oriau Gwaith | 15 awr yr wythnos (3 awr bob bore) |
| Math o Gytundeb | Rhan-amser |
| Hyd y Cytundeb | Dros Dro |
| Teitl swydd y Rheolwr Llinell | Pennaeth / Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol |
| Cyfrifoldebau Goruchwylio / Rheoli | Cynorthwywyr Dosbarth gyda disgybl yn y dosbarth |
| Atebolrwydd | Yn atebol i’r CADY, y Pennaeth a’r Corff Llywodraethol |
| Telerau Cytundebol sy'n Gysylltiedig â'r Swydd | |

## Dyletswyddau a chyfrifoldebau

**Cefnogi disgyblion**

- Cefnogi disgyblion
- Ymwneud ag anghenion personol y disgyblion, a gweithredu rhaglenni personol perthnasol, gan gynnwys materion cymdeithasol, iechyd, corfforol, hylendid, cymorth cyntaf a lles
- Goruchwylio a chefnogi disgyblion ag anghenion addysgol arbennig gan sicrhau eu bod yn ddiogel a bod ganddynt fynediad at ddysgu
- Cynorthwyo gyda datblygu, gweithredu ac adolygu Cynlluniau Addysg/Ymddygiad Unigol a rhaglenni Gofal Personol
- Sefydlu perthynas dda gyda’r disgyblion, gan weithredu fel patrwm ymddwyn, a bod yn ymwybodol o anghenion unigol ac ymateb yn briodol iddynt
- Herio a symbylu disgyblion, hyrwyddo ac atgyfnerthu hunan-werth
- Rhoi adborth i ddisgyblion ynghylch cynnydd, cyflawniad, ymddygiad, presenoldeb, ac ati
- Hyrwyddo cynhwysiant a derbyniad i’r holl ddisgyblion
- Annog disgyblion i ryngweithio ag eraill ac i gymryd rhan mewn gweithgareddau o dan arweiniad yr athro neu’r athrawes
- Annog disgyblion i weithredu’n annibynnol, fel y bo’n briodol

**Cefnogi’r Athro neu’r Athrawes**

- Paratoi’r ystafell ddosbarth yn unol â’r cyfarwyddyd ar gyfer gwersi, a chlirio wedyn, a chynorthwyo gydag arddangos gwaith disgyblion

• Bod yn ymwybodol o broblemau/cynnydd/cyflawniadau disgyblion a chyflwyno adroddiad i'r athro neu'r athrawes yn unol â'r hyn a gytunwyd
• Cadw cofnodion disgyblion yn unol â'r cais
• Cefnogi'r athro neu'r athrawes gyda'r gwaith o reoli ymddygiad disgyblion, gan gyflwyno adroddiad ar anawsterau, fel y bo'n briodol
• Casglu/cyflwyno gwybodaeth i/oddi wrth rieni/gofalwyr yn unol â'r cyfarwyddyd
• Darparu cefnogaeth glerigol/weinyddol e.e. llungopïo, teipio, ffeilio, casglu arian, ac at

**Cefnogi'r Cwricwlwm**
• Cefnogi disgyblion i ddeall cyfarwyddiadau
• Cefnogi disgyblion i gael mynediad i'r cwricwlwm
• Cefnogi disgyblion o ran strategaethau lleol a chenedlaethol e.e. llythrennedd, rhifedd, y blynyddoedd cynnar, yn unol â chyfarwyddyd yr athro neu'r athrawes
• Cefnogi disgyblion gyda'r gwaith o ddefnyddio TGCh sylfaenol yn unol â'r cyfarwyddyd
• Paratoi, a chynnal a chadw, offer/adnoddau yn unol â chyfarwyddyd yr athro neu'r athrawes, a chynorthwyo'r disgyblion i'w defnyddio

**Cefnogi'r Ysgol**
• Bod yn ymwybodol o bolisïau a threfniadaethau perthnasol, gan gydymffurfio â hwy, yn ymwneud ag amddiffyn plant, iechyd, diogelwch a sicrwydd, cyfrinachedd a gwarchod data, a chyflwyno adroddiad ar bob testun pryder i berson priodol
• Bod yn ymwybodol o wahaniaethau a'u cefnogi, a sicrhau bod gan yr holl ddisgyblion fynediad cyfartal i'r cyfleoedd ar gyfer dysgu a datblygu
• Cyfrannu tuag at ethos/gwaith/amcanion cyffredinol yr ysgol
• Gwerthfawrogi a chefnogi swyddogaeth y gweithwyr proffesiynol eraill
• Mynychu cyfarfodydd perthnasol yn ôl y galw
• Cymryd rhan mewn hyfforddiant a gweithgareddau dysgu eraill a datblygu perfformiad yn ôl y gofyn
• Cynorthwyo gyda'r gwaith o oruchwylio disgyblion ar adegau y tu allan i wersi, gan gynnwys cyn ac ar ôl ysgol ac yn ystod yr awr ginio
• Mynd gyda'r staff addysgu a'r disgyblion ar ymweliadau, gwibdeithiau, a gweithgareddau y tu allan i'r ysgol yn ôl y galw

Y pum safon proffesiynol ar gyfer cynorthwyo addysgu

**Addysgeg**
Mae'r cymorth ar gyfer yr athro neu ar gyfer dysgwyr yn canolbwyntio ar ddeilliannau dysgu ac ar les.Mae'r cynorthwyydd addysgu yn rhan annatod o'r tîm sy'n cynnig cyfleoedd dysgu ac mae'n gosod esiampl. Mae'r dylanwad ar ddysgwyr eu hunain yn gadarnhaol, gan ddatblygu eu hymagwedd tuag at ddysgu a gwella'u gallu i fanteisio ar gyfleoedd dysgu fel sy'n briodol.

**Cydweithredu**
Mae'r cynorthwyydd addysgu yn gweithio gyda chydweithwyr ar bob lefel i gyflawni amcanion yr ysgol. Mabwysiedir safbwynt o ddisgwyliad, sy'n cynnwys gweithio'n effeithiol gyda chydweithwyr o ysgolieraill a chyda theuluoedd neu bartneriaid eraill sydd ynghlwm â dysgu.

**Arweinyddiaeth**

Mae’r cynorthwyydd addysgu yn cymryd cyfrifoldeb am eu rôl o gefnogi atebolrwydd athrawon a chynnydd dysgwyr penodol. Mae’n mynd ati’n gyson i gefnogi’r gwaith o arwain timau neu’r ysgol drwy gyfrannu’n llawn er mwyn ceisio sicrhau’r deilliannau gorau i ddysgwyr.

**Arloesi**

Mae’r cynorthwyydd addysgu yn ystyried syniadau a thechnegau newydd ac yn cyfrannu at ymdrech yr ysgol i roi dulliau newydd o ddysgu ac addysgu ar waith.

**Dysgu Proffesiynol**

Mae’r cynorthwyydd addysgu yn ymdrechu i ddatblygu gwybodaeth a sgiliau newydd sydd o fudd i’r dysgwyr drwy fod yn weithgar yn yr ysgol fel cymuned sy’n dysgu. Mae’n mynd ati i gymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu sy’n cefnogi anghenion yr ysgol neu ddysgwyr penodol.

# Manyleb Person

| Gofynnol | | |
|---|---|---|
| Y cymwysterau academaidd/proffesiynol/ technegol/galwedigaethol (gan gynnwys Lefel y cymwysterau) sy'n ofynnol ar gyfer y swydd | Gweithio gyda, neu ofalu am, blant o'r oed perthnasol<br>• Sgiliau rhifedd/llythrennedd da<br>• Rhaglen Gyflwyniad Cynorthwy-ydd Addysgu wedi'i chwblhau<br>• Cymryd rhan mewn cyfleoedd datblygu a hyfforddi<br>• Profiad o gefnogi disgyb(lion) sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. | |
| Lefel y sgiliau ieithyddol sy'n ofynnol ar gyfer y swydd (Gweler y canllawiau iaith a'r ceri \| net ) | Gweler y tabl isod. *Nodyn: Bydd gofyn i'r ymgeisydd llwyddiannus ddysgu'r Gymraeg o fewn 2 flynedd o gael ei benodi os nad ydyw eisoes yn siarad Cymraeg. | |
| Sgiliau Ieithyddol Cymraeg | Gwrando/Siarad: **Lefel 5**<br>Darllen: **Lefel 5**<br>Ysgrifennu: **Lefel 5** | Rhaid cwrdd a'r sgiliau ieithyddol Cymraeg a nodwyd ar apwyntiad. |
| Sgiliau Ieithyddol Saesneg | Gwrando/Siarad: **Lefel 5**<br>Darllen: **Lefel 5**<br>Ysgrifennu: **Lefel 5** | Rhaid cwrdd a'r sgiliau ieithyddol Saesneg a nodwyd ar apwyntiad. |
| Sgiliau Ymarferol / Personol | • Mae'r gallu i gyfathrebu a chefnogi trwy gyfrwng y Gymraeg yn hanfodol ar gyfer y swydd yma.<br>• Yn frwdfrydig dros addysg disgyblion ac yn cyfrannu'n llawn i fywyd a gwaith yr ysgol.<br>• Yn onest ac yn ddibynadwy, ac yn parchu cyfrinachedd.<br>• Yn hyderus a brwdfrydig.<br>• Yn meddu ar fedrau rhyngbersonol da.<br>• Yn gallu cyd-weithio mewn tîm. | |
| Profiad sy'n ofynnol ar gyfer y swydd | • Gweithio gyda, neu ofalu am, blant o'r oed perthnasol | |
| Hyfforddiant/addysg y mae'n ofynnol eu cyflawni/mynd ati i'w cyflawni ar gyfer y swydd | • Cymryd rhan yn rhaglen dysgu proffesiynol yr ysgol. | |

| Dymunol | |
|---|---|
| Cymwysterau / Hyfforddiant | |
| Gwydodaeth a Sgiliau | • Defnydd effeithiol o TGCh i gefnogi'r dysgu<br>• Defnydd o offer eraill technoleg– fideo, llungopïwr<br>• Dealltwriaeth o bolisïau/codau ymarfer perthnasol, ac<br>• ymwybyddiaeth o'r ddeddfwriaeth berthnasol.<br>• Dealltwriaeth gyffredinol o'r cwricwlwm a rhaglenni /<br>• strategaethau dysgu sylfaenol eraill.<br>• Dealltwriaeth sylfaenol o ddatblygiad a dysgu'r plentyn. |

| | |
|---|---|
| | • Y gallu i hunanwerthuso anghenion dysgu ac ymdrechu i chwilio am gyfleoedd dysgu.<br>• Y gallu i ddod ymlaen yn dda gyda phlant ac oedolion<br>• Gweithio’n adeiladol a hyblyg yn rhan o dîm, deall cyfrifoldebau a swyddogaethau’r ystafell ddosbarth a’ch safle bersonol o fewn y swyddogaethau hynny |